**Crynodeb Gweithredol: Dadansoddiad Proffil Anghenion Cenedlaethol Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant - ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yng Nghymru 2025, Mehefin 2025.**

Mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant wedi cyflawni dadansoddiad o atgyfeiriadau, astudiaethau achos a phrosiectau comisiynu plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys gwaith gan Grŵp y Comisiynwyr Ifainc, rhwng 2020 a 2025 yng Nghymru, er mwyn llywio'r dadansoddiad o anghenion cenedlaethol. Mae'r prif grynodeb yn arwain at graffig-wybodaeth lefel uchel er hygyrchedd, ac wedyn yr adroddiad llawn. Mae'r ddau ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Dros y cyfnod 5 mlynedd o hyd, mae'r boblogaeth sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi bod yn gymharol sefydlog ond gyda chynnydd mewn straen ar deuluoedd a phroblemau ynghylch gallu i weithredu wedi'u nodi yn rhesymau allweddol dros fynd i ofal, wedi'u cysylltu o bosibl â newidiadau cymdeithasol megis cynnydd mewn tlodi, ac effaith COVID-19 ar y boblogaeth.

Mae Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2025 wedi gwared â'r modd o wneud elw o ddarparu gofal i blant, a bylchau mewn digonolrwydd o ran gwasanaethau, yn ffactorau sy'n gyrru sicrhad bod modd i'r farchnad allanol ymateb i'r newidiadau sylweddol y mae disgwyl amdanyn nhw dros y 5 i 10 mlynedd nesaf. Y bwriad i gyflenwi twf effeithiol mewn darpariaeth yn y sector cyhoeddus, er mwyn gwneud y mwyaf o ansawdd y dewis o gartrefi sy'n cynnig gofal a chymorth. Bwriad yr adroddiad yma yw helpu darparwyr i ystyried y diffyg o ran paru'r gwasanaethau cyfredol â phroffiliau anghenion y plant sy'n derbyn gofal, gan gefnogi gwaith cynllunio gwasanaethau neu amrywio ar gyfer y dyfodol.

Mae'r adroddiad yn dadansoddi sut mae proffiliau anghenion yn ymwneud ag ystod o ymddygiadau a phrofiadau rhyng-gysylltiol. Mae nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) a thrawma cymhleth ymhlith plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru, yn golygu bod angen defnyddio dull sy'n ystyriol o drawma yn sail lle mae modd i warcheidwaid gynnig cyfle i blant wella a ffynnu. Ers COVID-19, mae cymhlethdod aml-agweddog o ran angen yn amlwg, ac o ganlyniad mae gweithio gyda phartneriaid amlasiantaeth a gwasanaethau cymunedol lleol yn agwedd hanfodol o ofal o ansawdd.

Pan mae plant yn dod i mewn i'r system ofal, mae cael eu lleoli ger eu cartref yn angen cyffredin sydd wedi'i nodi ar gyfer y rhan fwyaf, gan eu cynorthwyo nhw i gynnal perthnasoedd diogel gyda theulu a ffrindiau, yn ogystal â meithrin rhwydweithiau cymorth lleol newydd cydnerth a chadarnhaol. Yn aml, maen nhw eisiau, ac angen byw ar y cyd â phlant a phobl ifainc eraill er mwyn atal unigrwydd neu ynysrwydd ac elwa o gymunedau cyfoedion cefnogol. Mae rheoli risgiau mewn modd cadarnhaol, gyda'r gallu i bennu cryfderau newydd neu risgiau sy'n dod i'r amlwg, hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau, perthnasoedd cyson, a lleihau tebygrwydd o ymddygiadau ac anghenion yn dirywio, yn ofyniad hanfodol.

Mae modd i niwroamrywiaeth ac anghenion dysgu arwain at anawsterau cyfathrebu, os nad yw'r rhain yn cael eu nodi neu eu bodloni yn anghenion, mae'n arwain at lefelau uwch o gael eu heithrio yn yr ysgol, hunan-hyder isel, niweidio eu hunain, camddefnyddio sylweddau a risg cynyddol o gael eu camfanteisio. Mae plant angen darparwyr sy'n gallu defnyddio dulliau ymgysylltu a chyfathrebu amrywiol er mwyn eu helpu nhw i deimlo eu bod nhw'n cael eu deall, eu parchu ac i leihau'r risg o bethau'n mynd yn waeth.

Am mai Cymru sydd â'r cyfraddau tlodi a phobl ifainc nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) uchaf ymhlith Gwledydd Prydain, mae plant angen cymorth rhagweithiol o ran cyflawni deilliannau addysgol cadarnhaol yn llwybr nodedig allan o dlodi. Mae cysondeb o ran dull gweithredu mewn ysgolion a lleoliadau gofal yn ffurfio sail gadarn. Mae rhai yn elwa o fyw gyda darparwyr sy'n gallu cynnig gofal integredig a

chymorth addysgol neu ysgolion sydd wedi'u cofrestru gydag Estyn.  Ar gyfer plant mewn gofal maeth, mae cynnal presenoldeb yn eu hysgol neu ddarparwr addysg cyfredol, neu dderbyn cymorth pan maen nhw allan o'r ysgol neu'n trosglwyddo i ysgol newydd yn cynorthwyo â chydnerthedd rhieni maeth, gan hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau ymhellach.

Mae plant sy'n derbyn gofal yn wynebu risg uwch o gael eu camfanteisio yn aml, gan ofyn am bolisïau diogelu a rhwydweithiau gwybodaeth lleol cadarn, gyda chymhwysedd mewn asesu risgiau deinamig sy'n canolbwyntio ar gynllunio diogelwch, atal trais a thawelu ymddygiad.  Mae rhieni maeth angen hyfforddiant a phrofiad mewn perthynas â risgiau hunan-niweidio, camddefnyddio sylweddau ac ymddygiadau ymosodol a ffyrnig.

Tua phen uchaf y continwwm anghenion, mae gofal integredig, addysg, iechyd meddwl a gwasanaethau sy'n cael eu harwain yn glinigol yn ofynnol er mwyn cynorthwyo plant sydd wedi wynebu trawma, profedigaeth, syniadaeth hunan-niweidio ac hunanladd, anghenion o ran hunaniaeth rhywedd, niwed ar-lein, a chamdriniaeth rhywiol. Mae plant sydd wedi'u camreoleiddio sy'n wynebu trallod neu argyfwng angen gweithlu tosturiol, hyderus, sydd wedi'u hyfforddi yn dda sy'n cynnig gofal cyson yn rhan o ddull neu fodel gofal amlwg.

Mae'r dadansoddiad yn nodi tueddiadau ar draws ystod o anghenion ac yn rhagolygu anghenion, profiadau ac ymddygiadau yn dod i'r amlwg dros y 5 mlynedd nesaf.  Bydd yr adroddiad yn helpu darparwyr i ddarparu gofal yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda gweithlu wedi'i hyfforddi yn dda, sydd â gallu gwell o ran bodloni proffiliau angen plant yng Nghymru a sicrhau eu bod nhw'n ffynnu yn oedolion.

Mae Consortiwm Comisiynu Cymru ar gyfer Plant yn croesawu trafodaethau comisiynu gyda chydweithwyr ar draws gofal cymdeithasol. Mae modd cysylltu â nhw drwy e-bostio: 4c@rctcbc.gov.uk neu ffonio 01443 570098 rhwng 9am a 5pm o ddydd Llun i ddydd Gwener.

---

Consortiwm Comisiynu
Cymru ar gyfer Plant
Childrens' Commissioning
Consortium Cymru
Cydweithio Er Gwell • All Together Better

**Executive Summary: Children Looked After in Wales, 4Cs' National Needs Profile Analysis, June 2025.**

The Childrens Commissioning Consortium Cymru (4Cs) has undertaken an analysis of children looked after referrals, case studies and commissioning projects, including work by the Young Commissioners Group, between 2020 – 2025 in Wales, to inform the national needs analysis. The executive summary leads into a high-level infographic for ease of access, and onto the full report. Both are available in Welsh and English.

Over the 5-year period the looked after population in Wales has been relatively static but with an increase in acute family stress and dysfunction cited as a key reason for entry to care, possibly linked to societal changes such as increased poverty, and the impact of Covid-19 on the population.

The implementation of the Health and Social Care (Wales) Act 2025 to remove profit from childrens care, and sufficiency gaps in services, are drivers to ensure the external market can respond to the significant changes anticipated over the coming 5 to 10 years. The intent to effectively supplement a growth in public sector provision, to maximise the quality of choice of homes offering care and support. This report is intended to help providers consider the mismatch between current services and the needs profiles of children looked after, thereby supporting service planning or diversification for the future.

The report analyses how needs profiles relate to a range of interconnected behaviours and experiences. The number of adverse childhood experiences (ACEs) and complex trauma for children looked after in Wales, means an embedded trauma informed approach is needed as a base from which carers can offer children the opportunity to heal and thrive. Since Covid-19, increased multi-faceted complexity of need is evident, therefore working closely with multi-agency partners and local community services is an essential aspect of quality care.

When children enter care, being placed near to home is a common need identified for most, supporting them to maintain safe family relationships and friendships as well as building resilient, positive, new local support networks.  They often want and need to live alongside other children and young people to prevent loneliness or isolation and benefit from supportive peer communities.  Positive risk management, with the ability to identify new strengths or emerging risks, promoting placement stability, consistent relationships, and reducing the likelihood of escalation of behaviours and need, is an essential requirement.

Neurodiversity and learning needs can lead to communication difficulties which if unidentified or unmet as needs, result in higher prevalence of school exclusion, low self-esteem, self-harm, substance misuse, and increased risk of exploitation.  Children need providers who can use diverse engagement and communication methods to help them feel understood, respected and reduce the risk of escalation.

As Wales has the highest poverty and NEET rates of the 4 UK nations, children need proactive support towards positive educational outcomes, as a known pathway out of poverty.  Consistency of approach in both school and care settings form a solid foundation. Some benefit from living with providers who can offer integrated care and educational support or Estyn registered schools.  For children in foster care, maintaining attendance at existing school and learning provision, or receiving support when out of school or transitioning to a new school, aids carer resilience, further promoting placement stability.

Children looked after are often at a higher risk of exploitation, needing robust safeguarding policies and local intelligence networks, with competence in dynamic risk assessment focusing on safety planning, violence prevention and behaviour de-escalation.  Carers need training and experience in risks of self-harm, substance misuse, and aggressive or violent behaviours.

At the higher end of the needs continuum, integrated care, education, mental health and clinical led services are required to support children who have experienced trauma, bereavement, self-harm and suicide ideation, gender identity needs, online harm, and sexual abuse. Dysregulated children experiencing distress or crisis require a well-trained, confident, compassionate workforce who offer consistent care within a clear approach or model of care.

The analysis identifies trends across a range of needs and forecast likelihood of presenting needs, experiences, and behaviours over the next 5 years.  The report will help providers to deliver evidenced-based care, with a well-trained workforce, better able to meet the needs profiles of children in Wales and ensure they thrive into adulthood.

4Cs welcome commissioning discussions with colleagues across social care and can be contacted at 4Cs@rctcbc.gov.uk or Mon-Fri 9am-5pm on 01443 570098.